



Mewnbynnu gwybodaeth ar gyfer Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) yn Locum Hub Wales

Diweddariad Awst 2021

Diolch i adborth Rheolwyr Practisiau a Rhanddeiliaid, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm yn Locum Hub Wales (GP Wales) i gyflwyno ardaloedd UPCC ar wahân yn Locum Hub Wales i fewnbynnu a chofnodi gwaith UPCC.

Os ydych chi'n postio sifft Locwm ar gyfer Canolfan Gofal Sylfaenol Brys (UPCC), gall Locum Hub nawr sefydlu UPCC fel endid ar wahân i gofnodion eich Practis. I ofyn am leoliad UPCC newydd, cwblhewch y ffurflen atodedig [yma](#).

Ar gyfer sicrwydd mewn perthynas â Data eich Practis, ni fydd Rheolwyr Practisiau eraill sydd â mynediad at opsiwn UPCC yn gallu gweld manylion eich Practis ac fel arall; bydd eu mynediad at Locum Hub Wales yn cael ei bennu gan eu hawliau mynediad personol eu hunain.

Bydd yr holl swyddogaethau eraill yn Locum Hub Wales yr un peth ar gyfer lleoliadau UPCC ag ar gyfer codau W Practisiau. Defnyddiwch yr ardal nodiadau wrth bostio sifft UPCC i nodi manylion am leoliad y sifft, y system glinigol a ddefnyddir ac unrhyw ganllawiau i'r Locwm.

Bydd y swyddogaeth ychwanegol hon yn galluogi Practisiau i wahanu eu harchebion UPCC oddi wrth eu harchebion rheolaidd Locwm Practisiau. Bydd hefyd yn helpu i osgoi dryswch ynghylch lleoliad y sifft - gellir nodi lleoliad yr UPCC yn yr ardal nodiadau os oes sawl lleoliad ar gyfer yr UPCC.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw adborth ar Locum Hub Wales neu unrhyw un o'r Offer Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol.



